

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PWYLLGOR ARCHWILIO

Adroddiad a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Mawrth 2006 yn unol ag adran 102(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd

Cynnwys	Paragraffau
Crynodeb	
Argymhellion	1-5
Y contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd	
Gellid bod wedi gwella'r broses dendro trwy egluro diffiniadau ym manyleb y gwasanaeth a'r fframwaith wneud penderfyniadau	6-17
Yr oedd gwiriadau manwl ar allu cyllidol a chlinigol CSUK, cyn rhoi'r contract, yn hynod o ddiffygiol	18-28
Darparodd y Bwrdd Iechyd Lleol arian ychwanegol oherwydd pryderon am ddiogelwch cleifion a gododd o gynnydd honedig mewn galw	29-32
Ni wnaeth gweithgarwch clinigol gynyddu tu hwnt i'r lefelau a osodwyd yn y fanyleb	33-38

ATODIADAU

- Atodiad A Trafodion perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion o dystiolaeth (Dydd Iau 10 Tachwedd)
- Atodiad B Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor gan Dr Thompson o Feddygfa Pont Trelai dyddiedig 13 Hydref 2005
- Atodiad C Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor gan yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig 2 Tachwedd 2005
- Atodiad D Cylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd mewn ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol
- Atodiad E Adroddiad gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yn nodi'r system seiliedig ar risg ar gyfer cyfeirio penderfyniadau i'r Bwrdd llawn

Crynodeb

Yn Ebrill 2004, rhoddodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd gontract am ddarparu gwasanaethau Meddyg Teulu tu allan i oriau arferol i gwmni oedd newydd ei ffurfio, o'r enw Clinical Solutions UK/ Europe (CSUK), yn dilyn proses dendro gystadleuol. Yn fuan wedi i'r cwmni ddechrau gweithredu yn Hydref 2004, rhoddodd BILL Caerdydd arian ychwanegol i CSUK, oedd yn £59,000 i gyd dros y chwe mis hyd Fawrth 2005, i ddelio gyda'r perygl i gleifion oedd yn cael ei achosi gan amseroedd galw'n ôl annerbyniol o hir ar benwythnosau.

Ar sail adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol¹, oedd yn deillio o ohebiaeth gan Bwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf, cawsom dystiolaeth ar roi a rheoli'r contract gan Ms Siân Richards, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Ms Alison Gerrard, Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd a Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fe wnaethom hefyd ystyried llythyr a anfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor gan Dr Thompson o Feddygfa Pont Trelai, yn herio un o gasgliadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ac ymateb yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn rhoi ac yn rheoli nifer sylweddol o gontractau. Yr oedd ein hastudiaeth yn canolbwyntio ar a oedd unrhyw wersi y gallai Byrddau Iechyd Lleol eraill a'r sector gyhoeddus ehangach eu dysgu o'r contract am wasanaethau tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd. Yn arbennig, fe wnaethom ystyried a oedd BILL Caerdydd wedi rheoli'n effeithiol y peryglon a gysylltir gyda rhoi'r contract i CSUK, a ph'un ai a oedd penderfyniad BILL Caerdydd i roi arian ychwanegol i'r cyflenwr i'w gyfiawnhau dan delerau'r contract.

Fe ddaethom i'r casgliadau:

- Yr oedd diffygion difrifol yn y gwiriadau a wnaeth BILL Caerdydd i asesu gallu ariannol a chlinigol CSUK cyn rhoi'r contract; ac
- Nid oedd cyfiawnhad i'r £59,000 ychwanegol a roddwyd i CSUK.

Diffygion difrifol yn y gwiriadau a wnaethpwyd cyn rhoi'r contract

Fe hysbysebodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yn gyhoeddus am dendrau, a cheisio cyngor a dilyn canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brif gamau'r broses. Fe

¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i Oriau Arferol yng Nghaerdydd* 24 Awst 2005

sgoriodd paneli arfarnu, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr annibynnol, fid CSUK yr uchaf yn erbyn cyfres o feini prawf anghyllidol. Serch hynny, yr oedd diffygion yn y broses, yn arbennig y diffyg eglurhad am y term “integreiddiad” ym manyleb y gwasanaeth, a’r ffaith fod y penderfyniad i roi’r contract i CSUK wedi’i wneud y tu allan i’r Bwrdd llawn. Fe nodwn weithredu diweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd i osgoi problemau o’r fath yn y dyfodol.

Fe wnaethom ddarganfod fod diffygion difrifol yn null rheoli BILI Caerdydd o rai o’r peryglon a ddeilliodd o’i benderfyniadau i roi’r contract i CSUK a’u bod heb gyrraedd safonau doethineb masnachol sylfaenol. Yn benodol:

- a) Yr oedd gwiriadau cefndir BILI Caerdydd i gael sicrwydd ynglŷn â gallu CSUK i gyflwyno gwasanaethau clinigol i gleifion yn annigonol i ddarparu’r sicrwydd hwnnw;
- b) Methodd BILI Caerdydd â gwneud y gwiriadau sylfaenol angenrheidiol i sicrhau fod y cwmni yn gadarn yn ariannol ac yn alluog i amsugno unrhyw gostau annisgwyl a gysylltir gyda gweithredu gwasanaeth tu allan i oriau; ac
- c) Er gwaetha’r ffaith ei fod yn cydnabod fod ei benderfyniad i roi’r contract i CSUK yn cynnwys nifer o beryglon, ni luniodd BILI Caerdydd gynllun rheoli risg na chynllun mewn argyfwng ysgrifenedig.

Fe nodwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi gweithredu un o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, trwy gyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru sy’n rhoi cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ar y cyfarwyddyd cyfredol ar wiriadau cefndir a doethineb sylfaenol dyledus. Fodd bynnag, mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y dylai swyddogion cyhoeddus fod yn alluog i arfer doethineb masnachol teg heb orfod cyfeirio at ganllawiau manwl. Felly, fel comisiynwyr proffesiynol gwasanaeth, dylai swyddogion Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd o leiaf fod wedi bod yn ymwybodol o fodolaeth canllawiau o’r fath, os nad yn gwybod eu manylion, a bod wedi sicrhau fod eu dull o drin y contract hwn yn adlewyrchu’r canllawiau.

Nid oes cyfiawnhad i’r arian ychwanegol o £59,000 a roddwyd i CSUK

Ceisiodd BILI Caerdydd gyfiawnhau ein bod yn talu arian ychwanegol i CSUK ar sail y tri rheswm canlynol:

- **Mwy o alw:** fe hawliodd CSUK a’r BILI fod llawer mwy o gleifion yn defnyddio’r gwasanaeth nag a nodwyd yn ystod cyfnod caffael y gwasanaeth;
- **Diffyg sgiliau a hyfforddiant** ymhlith staff nyrsio CSUK; a

- **Diogelwch cleifion:** o ganlyniad i'r ddau ffactor hwn, nid oedd CSUK yn gallu ymateb i alwadau cleifion mor gyflym ag yr oedd y contract yn nodi.

Mae'r rhain yn ddadleuon annilys; rydym yn eu gwrthod.

Ni allai mwy o alw fyth fod wedi bod yn sail i dalu mwy o arian i CSUK: yr oedd y contract yn trosglwyddo'r perygl o ateb y galw i CSUK. Ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn amlwg, yn groes i'r rhesymeg ddiffygiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn gan Ms Richards, doedd dim cynnydd yn y galw uwchlaw'r lefelau a roddwyd ystyriaeth iddynt pan oedd y gwasanaeth yn cael ei gaffael.

Os yw'n wir fod y staff yr oedd CSUK wedi'u hetifeddu gan ddarparwr blaenorol y gwasanaeth heb y sgiliau angenrheidiol, yr oedd hwnnw hefyd yn berygl yr oedd CSUK wedi'i dderbyn fel rhan o'r contract. Yn bendant nid oedd yn ddadl i dalu mwy o arian i CSUK.

Gallai diogelwch cleifion yn sicr fod yn rheswm i'r BILI ymyrryd, ond yr ydym yn ei chael yn annealladwy mai'r dull ymyrryd a ddewisodd y BILI oedd rhoi mwy o arian i CSUK. Cyfrifoldeb CSUK, dan amodau'r contract, oedd darparu gwasanaeth diogel. Mae methiant CSUK i wneud hynny yn rheswm dros gadw arian yn ôl nid i'w gynyddu.

Mae'n fan cychwyn cyffredinol i gorff cyhoeddus wrthod pan fo cyflenwr yn gofyn am fwy o arian, yn arbennig os yw'r cais hwnnw'n dod o fewn wythnosau i gychwyn y contract. Ond yn hytrach na thrin cais CSUK gyda gofal priodol, fodd bynnag, fe fu'r BILI yn barod i dalu i CSUK beth oedd yn ofyn amdano, cyn paratoi cynllun busnes am wneud hynny a heb unrhyw ddull diogelu pe byddai'r talu heb ei gyfiawnhau (fel yr oedd). Fe nodwn fod Pwyllgor Archwilio'r BILI yn ystyried ar hyn o bryd a ellir adfer rhywfaint o'r arian oddi wrth CSUK.

Argymhellion

- Gallai Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd fod wedi gwneud mwy yn gynt i ddatrys camddealltwriaethau gyda bidiwr gyda golwg ar ddehongli manylion y gwasanaeth.

Yr ydym yn argymhell y dylai cyrff y sector gyhoeddus:

 - Pan fo'n briodol, a chan fod yn ofalus i gadw tegwch, wneud contract cyn-tendro gyda'r farchnad er mwyn trafod a gwneud yn eglur y fanyleb, yn arbennig os yw'n gymhleth neu'n anarferol;**
 - Cynnig cyfleoedd i fidwyr posibl i drafod unrhyw amwysedd posibl ynglŷn â dehongli manyleb y gwasanaeth cyn bo tendrau'n cael eu cyflwyno; ac**
 - yn cynnwys geirfa ym manyleb eu gwasanaethau sy'n diffinio unrhyw dermau a allai fod yn annelwig.**
- Pwrpas cael tystlythyrau yw derbyn cadarnhad annibynnol, gydag awdurdod, am allu cwmni i wireddu'r hyn mae'n ddweud y gall ei wireddu. Fodd bynnag, dim ond geirda llafar a geisiodd BILI Caerdydd am CSUK gan ganolwyr a oedd, yn wir, heb fod mewn sefyllfa i wneud sylw am allu CSUK i gyflwyno gwasanaethau clinigol ac a oedd â phosibilrwydd o fod â buddiannau'n gwrthdaro. Hefyd nid oedd y tystebau wedi'u cofnodi'n briodol. Ar sail yr achos hwn, felly **yr ydym yn argymhell fod cyrff y sector gyhoeddus yn cadarnhau fod canolwyr mewn sefyllfa i wneud sylwadau gydag awdurdod ar allu'r cwmni i ddarparu gwasanaethau y mae'n tendro amdanynt, nad oes gwrthdaro buddiannau o gwbl gan ganolwyr a bod pob geirda yn cael ei gofnodi a'i gadw.**
- Mae'n anodd esgusodi'r ffaith fod BILI Caerdydd wedi peidio dilyn arfer da yn y gwiriadau sylfaenol a wnaeth i wneud yn siŵr fod CSUK yn ddichonadwy yn ariannol a chanddo'r gallu i ddelio gydag unrhyw gostau neu wariant annisgwyl. Yn ddiweddar fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd Lleol am ganllawiau presennol y Trysorlys a Swyddfa Masnach y Llywodraeth. **Yr ydym yn argymhell fod Byrddau Iechyd Lleol, wrth arfer eu dyletswydd i gymhwyso safonau doethineb masnachol, yn cael eu cyfarwyddo gan ganllawiau'r Trysorlys a Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar y gwiriadau ariannol sydd angen eu gwneud ar gwmnïau sy'n bidio am gontractau, gyda phwyslais arbennig ar yr angen i wirio fod gan gwmnïau newydd y gallu ariannol i gyflwyno'r gwasanaeth yn ddigonol.**

4. Fe allai gwasanaeth tu allan i oriau aneffeithiol gael effaith andwyol, nid yn unig ar y cleifion sy'n cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol, ond hefyd ar y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn gyfan. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith ei fod wedi cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau tu allan i oriau i gleifion a bod ei benderfyniad i roi'r contract i CSUK yn ei hanfod yn beryglus, ni wnaeth BILL Caerdydd sefydlu strategaeth rheoli risg fanwl ac nid oedd ganddo gynllun mewn argyfwng yn ysgrifenedig. **Yr ydym yn argymhell, wrth roi contractau am wasanaethau i gleifion i gyflenwyr newydd, y dylai Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chynlluniau argyfwng wrth gefn sy'n gymesur â'r peryglon yn achos methiant yn y gwasanaeth neu fethiant ariannol.**

5. Mae gwyro yn gynnar oddi wrth delerau'r contract o blaid y darparwr yn beryglus iawn, a dylai ddigwydd dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf anghyffredin a dylai gael ei gyfiawnhau yn drylwyr iawn. Ni wnaeth BILL Caerdydd gofnodi'n gyflawn ei benderfyniad gwreiddiol i roi arian ychwanegol i CSUK, ond fe geisiodd gyfiawnhau ei benderfyniad ar y sail fod cynnydd digynsail wedi bod yn y galw, pan yn wir, nad oedd galw wedi cynyddu uwchlaw'r lefelau a nodwyd yn y contract. **Yr ydym yn argymhell ble mae cyrff y sector gyhoeddus yn penderfynu rhoi arian ychwanegol i gontractwyr oddi allan i delerau'r contract, y dylent:**
 - a) **Asesu'n drylwyr y dystiolaeth fod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau'r arian; ac yn**
 - b) **cofnodi'n gyflawn y sail i'w penderfyniad.**

Y contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd

Yr oedd diffygion difrifol yn y gwiriadau wnaeth Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd i asesu gallu ariannol a chlinigol CSUK cyn rhoi'r contract

Gellid bod wedi gwella'r broses dendro trwy wneud yn eglur ddiffiniadau ym manyleb y gwasanaeth a'r fframwaith wneud penderfyniadau

6. O dan y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd, sy'n galluogi meddygon teulu i eithrio o'u cyfrifoldebau blaenorol i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, ers Ebrill 2004 mae'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i oriau wedi bod gyda'r Byrddau Iechyd Lleol.² Dywedodd Ms Richards wrthym fod yr holl Feddygon Teulu yng Nghaerdydd wedi nodi ym mis Rhagfyr 2003 eu bod yn bwriadu eithrio o'u cyfrifoldebau blaenorol. Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, penderfynodd BILI Caerdydd y byddai'n cyflwyno'r gwasanaethau newydd erbyn 1 Hydref 2004, ychydig cyn y dyddiad terfyn Rhagfyr 2004, a wyddys sy'n amser brig ar gyfer gwasanaethau tu allan i oriau arferol.³ Yn Ebrill 2004, yn dilyn proses gaffael o dri mis, rhoddodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd y contract i ddarparu gwasanaethau Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol i CSUK, sef cwmni preifat oedd wedi'i ffurfio'n gymharol ddiweddar.
7. Yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi dosbarthu canllawiau ar y camau y dylai Byrddau Iechyd Lleol eu cymryd i sicrhau gwelliant yn y gwasanaethau Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol. Yr oedd Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi trefnu cyfres o weithdai trwy Gymru i helpu i baratoi am y trefniadau newydd.⁴ Esboniodd Ms Richards ei bod hi wedi mynychu ac wedi annerch mewn rhai o'r gweithdai hyn.⁵
8. Dywedodd Ms Richards wrthym, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad ac yn dilyn derbyn cyngor caffael, fod BILI Caerdydd wedi penderfynu mabwysiadu proses dendro gystadleuol.⁶ Cyhoeddodd y BILI wahoddiad i dendro am dair agwedd o'r ddarpariaeth gwasanaethau tu allan i oriau yng Nghaerdydd: brysbennu Nyrsys ar y teleffon, asesiad clinigol a thrafnidiaeth. Gosododd y BILI gontract ar

² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.1

³ C2

⁴ C3

⁵ C4

⁶ C2

wahân i ddarparu gwasanaeth delio gyda galwadau tu allan i oriau arferol i 'Cyswllt â Chaerdydd', canolfan alw Cyngor Sir Caerdydd⁷.

9. Hysbysebodd BILI Caerdydd am dendrau yn y Cylchgronau Gwasanaethau Iechyd yn Ionawr 2004; cafwyd pedwar bid. Ym mis Mawrth, dileewyd dau o'r bidwyr gan banel arfarnu amlddisgyblaethol, gan adael CSUK a Chonsortiw Gofal Integredig Caerdydd (oedd yn gyfansoddiad o Feddygon ar Alwad Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ar ôl i gystadlu am y contract⁸.
10. Rhoddodd ail banel arfarnu, oedd yn cynnwys cynrychiolydd o'r Ganolfan Wasanaethau Busnes y GIG a Meddyg Teulu, yn ogystal âg Is-Gadeirydd y BILI ac uwch swyddogion y BILI, sgoriau i'r ddau fid yn erbyn y meini prawf anariannol canlynol:
 - a) Rhagdybiaeth realistig gyda golwg ar weithlu
 - b) Proses recriwtio ac achredu / hyfforddi gadarn;
 - c) Posibilrwydd i gwrdd â'r targedau sydd ym manyleb y gwasanaeth;
 - d) Agwedd arloesol at gyflwyno'r gwasanaeth;
 - e) materion rheolaeth glinigol; a
 - f) trefniadau atebolrwydd.

Fe sgoriodd y panel arfarnu fid CSUK 19 y cant yn uwch na bid Consortiw Gofal Integredig Caerdydd (y Consortiw) yn ôl y meini prawf hyn.⁹

11. Ar adeg y broses dendro ac arfarnu, yr oedd gan CSUK berthynas gytundebol gyda Clinical Solutions Group, cwmni meddalwedd o America sy'n cynhyrchu algorithmau teleffon i gefnogi system brysbennu Nyrsys, trwy gontract adwerthu. Fodd bynnag nid oedd Clinical Solutions Group yn rhiant-gwmni CSUK¹⁰. Ni welodd yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff unrhyw dystiolaeth fod yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r panelau arfarnu mewn unrhyw fodd yn anghywir neu'n fwriadol gamarweiniol am natur y berthynas hon¹¹. Er bod CSUK wedi defnyddio logo Clinical Solutions Group yn ei gyflwyniad, yr oedd gan CSUK hawl i ddefnyddio'r logo fel rhan o'i berthynas

⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1

⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.3

⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.4 a 1.5

¹⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.12

¹¹ Atodiad C

gytundebol gyda Clinical Solutions Group. Hefyd ni chanfyddodd yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw dystiolaeth fod profiad rhyngwladol Clinical Solutions Group yn berthnasol i arfarniad tendrau a'r penderfyniad i roi'r contract i CSUK¹².

12. Yr oedd cyflwyniad CSUK i'r panelau arfarnu yn canolbwyntio ar brofiad blaenorol uwch dîm CSUK a fyddent, os yn llwyddiannus yn gweithredu'r gwasanaeth tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd.¹³ Cyfeiriodd Ms Richards at bwysigrwydd y profiad unigol hwn ym mhenderfyniad terfynol y BILI i roi'r contract i CSUK.¹⁴ Yr unig sôn am brofiad rhyngwladol Clinical Solutions Group oedd am ei feddalwedd i gefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, sydd yn wir yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol wledydd trwy'r byd, er nad yw Clinical Solutions Group yn darparu gwasanaethau clinigol tu allan i oriau yn y gwledydd hynny. Ymhellach, nid oedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i sgorio bidiau yn cynnwys yn benodol brofiad blaenorol na rhyngwladol.¹⁵
13. Rhoddodd Ms Richards sicrwydd inni fod gallu bidwyr i ddarparu gwasanaethau clinigol yn gynhenid yn y meini prawf a fabwysiadwyd ar gyfer arfarnu'r bidiau¹⁶. Er bod nodiadau ysgrifenedig aelodau'r panel arfarnu yn nodi diffyg cofnod o hanes CSUK fel perygl¹⁷, yr ydym yn ystyried nad oedd profiad blaenorol y bidwyr, a allai fod wedi dangos eu gallu i gyflwyno gwasanaethau clinigol, yn ddigon amlwg yn y meini prawf arfarnu. Er ein bod yn cydnabod yr angen i osgoi peidio peri fod rhai newydd i'r farchnad o dan unrhyw anfantais, yr ydym yn ystyried y gallai cynnwys yn benodol brofiad blaenorol fel un o'r meini prawf ar gyfer sgorio'r bidiau fod wedi annog y panel i ddynodi ac asesu unrhyw beryglon mewn perthynas â diffyg cofnod o hanes y bidiwr.
14. Yn ystod y broses arfarnu fe ddaeth yn eglur fod gan y BILI a'r Consortium ddehongliad gwahanol o ystyr y term "integreiddiedig" a ddefnyddiwyd ym manyleb y gwasanaeth.¹⁸ Esboniodd Ms Richards fod BILI Caerdydd wedi bod eisiau llwybr cleifion integreiddiedig trwy'r system tu allan i oriau arferol, tra bod y Consortium wedi llunio eu tendr hwy ar sail diffiniad llawer iawn ehangach "integreiddio", gan gyfeirio at system gofal brys integreiddiedig.¹⁹ Gofynnodd y BILI fod y Consortium yn

¹² C46 ac Atodiad C

¹³ Atodiad C

¹⁴ C22

¹⁵ Atodiad C

¹⁶ C22

¹⁷ Atodiad C

¹⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.10

¹⁹ C6

adolygu ei fid er mwyn tynnu allan y gweithgaredd brys a'r damweiniau ychwanegol. Hefyd gofynnodd y BILI i CSUK adolygu ei bris tendr i adlewyrchu cynnydd o 12 y cant yn y proffil gweithgaredd i gynnwys boreau Sadwrn. Cyflwynodd CSUK fid diwygiedig ond, am amrywiol resymau fe wrthododd y Consortiwm adolygu ei bris.²⁰ Ystyriodd y BILI y byddai cyfiawnhad dros eithrio'r Consortiwm o'r broses yn y cam hwn.²¹ Beth bynnag, yn dilyn yr ail banel arfarnu, dadansoddodd cyfarwyddwr cyllid BILI Caerdydd fid y Consortiwm ar sail proffil gweithgarwch cyffredin, i'w gwneud yn bosibl eu cymharu ar sail costau.²²

15. Er bod Ms Richards wedi tynnu sylw at hynny, o'r pedwar bid a gafwyd, dim ond y Consortiwm oedd wedi defnyddio'r diffiniad ehangach o integreiddio²³, ac mae dehongliad y Consortiwm o "integreiddiedig" yn ymddangos yn rhesymol, a 'rydym yn bryderus fod BILI Caerdydd heb allu datrys y camddealltwriaeth hwn yn gynt. Yr ydym felly yn nodi datganiad Ms Richards, y byddai'r BILI yn y dyfodol yn ymdrechu i gyflawni mwy o eglurder mewn manylebau gwasanaeth trwy esbonio yn eglur unrhyw dermau a allai fod yn annelwig eu dehongliad²⁴, ac y byddai'n cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda bidwyr cyn yr arfarniad terfynol o fidiau²⁵.
16. Er gwaetha'r problemau hyn gyda golwg ar ddehongli, nid ydym yn ystyried fod unrhyw newidiadau annheg wedi bod ym manyleb y gwasanaeth a fyddai wedi peri fod unrhyw fidiwr o dan anfantais. Yr ydym yn cydnabod hefyd fod y BILI wedi cymryd camau i drin y ddau fidiwr yn gyfartal ac i ystyried y ddau fid yn ôl eu cryfderau²⁶.
17. Gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol i roi'r contract i CSUK gan y prif weithredwr ac is-gadeirydd BILI Caerdydd, nid y Bwrdd yn gyflawn.²⁷ Yr oedd hyn yn gyson â Rheolau Sefydlog y BILI, a oedd yn seiliedig ar reolau sefydlog model Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, yr ydym yn cytuno gyda chanfyddiadau adolygiad Llywodraeth y Cynulliad, y cyfeirir ato yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod rhoi'r contract hwn oddi allan i benderfyniad y bwrdd yn llawn yn "annoeth".²⁸
Dywedodd Ms Richards wrthym y byddai'r BILI yn y dyfodol yn cyfeirio contractau o'r

²⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.7 a 1.8

²¹ C6

²² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.8

²³ C6

²⁴ C7

²⁵ C21

²⁶ Atodiad C

²⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.11; C 42

²⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.11

fath i'r Bwrdd gan ddefnyddio model asesu risg yr oedd wedi'i ddatblygu.²⁹ A dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wneud adolygiad rheolaeth gorfforaethol cynhwysfawr o fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau, a fydd yn ystyried y rheolau sefydlog model.³⁰

Yr oedd y gwiriadau manwl priodol ar allu ariannol a chlinigol CSUK, cyn rhoi'r contract, yn ddifrifol o ddiffygiol

18. Unwaith y bo BILI Caerdydd wedi dewis CSUK fel y bidiwr yr oedd yn ei ffafrio, yr oedd yn hanfodol eu bod yn gwneud y gwiriadau llawn i wneud yn siŵr fod gan y cwmni y gallu ariannol a chlinigol i ddarparu'r gwasanaethau a amlinellwyd ym manyleb y tendr. Yn arbennig, yr oedd yn gwbl hanfodol fod BILI Caerdydd yn sefydlu sicrwydd fod CSUK yn ariannol gadarn a galluog i amsugno unrhyw gostau annisgwyl oedd yn codi o gyflwyno gwasanaethau i'r safonau a nodwyd. Yr ydym yn bryderus na wnaeth BILI Caerdydd y gwiriadau ariannol sylfaenol oedd eu hangen i ymchwilio i sefyllfa ariannol a dilysrwydd CSUK. Esboniodd Ms Gerrard fod CSUK, fel cwmni newydd yn methu darparu cyfrifon blynyddol archwiliedig³¹. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd gan Swyddfa Fasnach y Llywodraeth neu gyfatebol, yn dynodi nifer o wiriadau a ddylid eu gwneud pan na all cwmnïau ddarparu cyfrifon archwiliedig³². Ni wnaeth BILI Caerdydd wneud dim o'r gwiriadau hyn, ond fe gawsant lythyr gan gyfrifwyr CSUK oedd yn nodi fod eu cyfrif banc "mewn digon o gredyd"³³. Cytunodd Ms Gerrard mai ychydig o sicrwydd a ellid ei gasglu o'r llythyr hwnnw³⁴. Ein barn ni yw mai cyfrifoldeb BILI Caerdydd oedd sicrhau fod y gwiriadau manwl priodol, sy'n ofynnol i wirio sefyllfa ariannol a dilysrwydd cwmni, yn cael eu gwneud. Felly 'rydym yn bryderus iawn fod y gwiriadau a wnaeth y BILI yn annigonol ac yn analluog i roi'r lefel o sicrwydd sydd ei angen wrth contractio gyda sefydliad newydd.
19. Rhoddodd Ms Gerrard esboniad manwl i ni ar sut yr oedd y BILI wedi arfarnu'r rhagdybiaethau ariannol oedd yn graidd i fid tendr CSUK. Yn benodol, tynnodd Ms Gerrard sylw fod y BILI wedi cymharu rhagdybiaethau a phris tendr CSUK gydag amcangyfrif y BILI ei hun cyn tendro³⁵. Tra mae'r pwyllgor yn sylweddoli fod hon yn

²⁹ C 42 a 43; Atodiad E

³⁰ C10

³¹ C31

³² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.14

³³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.15

³⁴ C34

³⁵ C31

ffordd werthfawr o fainc nodi bidiau, nid ydym yn credu fod gweithredoedd y BILL yn yr achos hwn yn cyfateb i wirio trylwyr priodol. Ni ellid gwirio dilysrwydd ariannol, neu fel arall, CSUK o'r modd yr oedd eu bid wedi'i lunio. Ymhellach, fe nodwn ddatganiad Ms Gerrard fod y BILL wedi mynd yn ôl at CSUK ac wedi'u cynghori i gynyddu pris eu tendr er mwyn cynnwys costau gweinyddol, a oedd wedi'i "danbriso rywfaint"³⁶. Mae'n anarferol iawn i annog bidwyr i gynyddu pris eu tendr, ac mae'r gweithredu hwn yn awgrymu nad oedd rhagolygon ariannol CSUK yn gwbl gadarn.

20. Dywedodd Ms Richards wrthym fod y BILL yn gwybod nad oedd CSUK yn darparu gwasanaethau clinigol yn unman arall yn y Deyrnas Unedig, ond fod eu tîm yn cynnwys unigolion gyda phrofiad clinigol sylweddol.³⁷ O ganlyniad, yr oedd yn hanfodol fod y BILL yn gwneud gwiriadau cefndir sicr i CSUK i wneud yn siwr fod y cwmni newydd hwn, nad oedd ganddo brofiad uniongyrchol o ddarparu gwasanaethau tu allan i oriau arferol, â'r gallu i gyflwyno gwasanaeth o'r fath. Fel rhan o'i wiriadau i'r cefndir, fe wnaeth BILL Caerdydd ymweliad â safle darparwr gwasanaeth tu allan i oriau ym Birmingham ble'r oedd CSUK yn darparu gwasanaethau fel rhan o gynllun peilot. Fodd bynnag, meddalwedd cyfrifiadurol oedd y cynhyrchion hyn, nid gwasanaethau clinigol, na wnaeth y darparwr gwasanaeth tu allan i oriau ym Birmingham eu comisiynu yn y diwedd.³⁸ Derbyniodd Ms Richards nad oedd yr ymweliad hwn yn dangos unrhyw dystiolaeth o hanes na phrofiad clinigol CSUK, ond fod dystiolaeth o'r fath wedi'i ddarparu gan eirida llafar pellach ar waith y cwmni mewn man arall.³⁹ Fodd bynnag, daeth y geirida pellach hwn dros CSUK gan ddau gwsmer posibl arall y cynhyrchion meddalwedd a gyflenwyd gan CSUK. Nid oedd canolwyr o'r fath mewn sefyllfa i roi sylwadau ar allu CSUK i ddarparu gwasanaethau clinigol ac yr oedd ganddynt fuddiannau'n gwrthdaro gan eu bod yn gwsmeriaid posibl i CSUK yn y dyfodol.⁴⁰ Hefyd methodd y BILL â chofnodi'r tystebau mewn modd priodol.⁴¹ Felly, fe gasglwn, fod y gwiriadau cefndir hyn yn bell o fod yn cyrraedd y safonau y byddem yn eu disgwyl yn rhesymol gan sefydliad doeth yn fasnachol sy'n rhoi contractau am wasanaethau clinigol hanfodol.

³⁶ C 31 i 33

³⁷ C14

³⁸ C 13 a 16

³⁹ C15

⁴⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.19

⁴¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.19; C 23

21. Rhoddodd Mrs Lloyd wybod i ni fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi Cylchlythyr lechyd Cymru mewn ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hwn yn cyfeirio'r BILI yn amlwg at ganllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth a'r Trysorlys ar wiriadau cefndir priodol a gofal manwl.⁴² Er ein bod yn nodi cylchlythyr Llywodraeth y Cynulliad yr ydym yn ailadrodd y ffaith mai cyfrifoldeb craidd y BILI ei hunan yw cynnal y gweithdrefnau gwirio priodol, ac felly dylai Byrddau lechyd Lleol ymglyfarwyddo â'r canllawiau cywir.
22. Cymerodd BILI Caerdydd rai camau i reoli'r peryglon a gysylltir gyda rhoi'r contract i CSUK. Dywedodd Ms Gerrard wrthym fod y BILI wedi gofyn am warant trydydd parti gan Clinical Solutions Group ond ei fod wedi methu â chael un oherwydd fod y berthynas rhwng Clinical Solutions Group a CSUK ar fin ei derfynu.⁴³ Fodd bynnag, ni wnaeth BILI Caerdydd yn syml ofyn am warant trydydd parti; fe wnaeth gwarant rhiant-gwmni yn amod o roi'r contract, ond ni allent sicrhau un gan nad oedd Clinical Solutions Group yn rhiant-gwmni CSUK.⁴⁴ Ar unwaith ar ôl rhoi'r llythyr yn cynnig y contract, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd lechyd Lleol fod CSUK yn gwmni ar ei ben ei hun heb unrhyw riant-gwmni.⁴⁵ Dywedodd Ms Gerrard wrthym fod y BILI wedyn wedi sicrhau gwarant rhiant-gwmni wedi i gyfranddaliadau yn CSUK gael eu trosglwyddo i Serco ym Mawrth 2005, chwe mis wedi i'r contract gael ei arwyddo.⁴⁶
23. Fe ofynasom i Ms Richards i esbonio pam fod BILI Caerdydd wedi ceisio gwarant rhiant-gwmni os oedd yn gwybod nad oedd Clinical Solutions Group yn rhiant-gwmni i CSUK, a ph'un ai, ar yr amser y cynigiodd y BILI y contract i CSUK, ei fod yn wir yn credu fod CSUK yn is-gwmni yn Clinical Solutions Group. Esboniodd Ms Richards fod y BILI yn gwbl ymwybodol fod CSUK yn gwmni ar ei ben ei hun. Fe esboniodd fod y BILI wedi gofyn am warant rhiant-gwmni oherwydd, yn y panel arfarnu, ac wedyn yn ysgrifenedig, fod CSUK wedi cyfeirio at elfen iawndal, am atebolrwydd am gynnyrch ac am warant ariannol o ganlyniad i'w gytundeb ail-werthwr gyda Clinical Solutions Group.⁴⁷ Dywedodd hefyd fod Prif Weithredwr CSUK yn is lywydd Clinical Solutions Group. Mae hyn yn awgrymu wrthym, ar yr amser y cynigiwyd y contract, nad oedd y BILI yn gwbl glir am union natur y berthynas rhwng CSUK a Clinical Solutions Group. Yn benodol, fe fyddem wedi disgwyl i'r Bwrdd lechyd Lleol fod wedi bod yn gwbl bendant am y berthynas rhwng y ddau gwmni, ac

⁴² C 36 i 40, Atodiad D

⁴³ C31

⁴⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.23

⁴⁵ Atodiad C

⁴⁶ C 31

⁴⁷ C 46

am fodolaeth gwarantau ariannol ac iawndal a ddarparwyd gan Clinical Solutions Group, cyn cynnig y contract i CSUK.

24. Dywedodd Ms Gerrard wrthym fod y BILI wedi cymryd camau i drin peryglon llif arian trwy ddyfeisio cynllun talu arbennig i wneud yn siwr fod CSUK yn cael eu talu'n fisol er mwyn ei alluogi i dalu ei dreuliau, heb fygwth rheolau cyfrifo'r llywodraeth sy'n gwahardd taliadau ymlaen llaw. Esboniodd Ms Gerrard hefyd, fel rhan o'r trefniadau cytundebol, fod y BILI wedi darparu taliadau am y costau yr oedd CSUK wedi'u hwynebu wrth sefydlu'r gwasanaeth.⁴⁸ Cyhyd â'n bod yn cydnabod, yn yr amgylchiadau, fod y camau hyn yn ddoeth, credwn y dylai BILI Caerdydd, wedi iddynt ganfod llif arian fel perygl digon sylweddol i warantu cynllun taliadau arbennig, fod wedi craffu ar gyfrifon a llif arian CSUK yn llawer mwy manwl unwaith y daeth y gwasanaeth yn weithredol, er mwyn monitro a rheoli'r peryglon parhaus.
25. Hefyd cymerodd y BILI gamau i reoli risgiau a gysylltwyd â diffyg hanes CSUK yn darparu gwasanaethau clinigol. Gan gydnabod fod profiad clinigol y cwmni gyda'i staff uwch reoli, fe roddodd y BILI y contract yn ddibynnol ar fod unigolion penodol yn cymryd swyddi penodol yng Nghaerdydd.⁴⁹ Pwysleisiodd Ms Richards fod BILI Caerdydd yn ei hanfod yn comisiynu arbenigedd yr uwch staff hyn i arwain y gwasanaeth tu allan i oriau arferol.⁵⁰ Tra'n bod yn cydnabod nad oedd hyn yn rhannol yn ateb y peryglon a gysylltwyd gyda diffyg cofnod o hanes CSUK, yr oedd y perygl yn parhau, yn dilyn llofnodi'r contract, y gallai'r unigolion hynny gael eu cyflogi yn rhywle arall.⁵¹
26. Er fod Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd wedi cymryd rhai camau i reoli'r peryglon a gysylltir gyda CSUK, yr ydym yn bryderus fod y rhain yn ad hoc ac nad oeddent yn gynhwysfawr nac yn cyfateb o ran maint i'r gyfradd uchel o risg oedd yma. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod adolygiad y Cynulliad wedi cydnabod, wrth roi contractau i gwmnïau heb gofnod o hanes pendant yn y maes perthnasol, fod angen i asesiadau risg fod yn fwy cadarn er mwyn gwarchod rhag y perygl mwy y gallai'r sefydliad fethu â chwrdd â'i oblygiadau cytundebol.⁵² Yr ydym yn bryderus na wnaeth BILI sefydlu strategaeth rheoli risg er mwyn atal methiant y gwasanaeth⁵³, na chynllun mewn argyfwng yn nodi'r camau y byddai'r BILI yn eu cymryd pe byddai'r

⁴⁸ C 31

⁴⁹ C 50

⁵⁰ C 22

⁵¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.25

⁵² C 41

⁵³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.22

cwmni'n profi na allai ateb ei oblygiadau cytundebol.⁵⁴ Yn hyn o beth, yr ydym yn nodi datganiad Ms Richards' y bydd ar Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd angen cynlluniau mewn argyfwng wedi'u cofnodi'n gyflawn ar gyfer pob tendr yn y dyfodol.⁵⁵

27. Fe ofynasom i Ms Richards pam fod papur gwybodaeth i'r Bwrdd, yn rhoi gwybod iddynt am y penderfyniad i roi'r contract i CSUK, yn cofnodi'n anghywir fod y contract wedi'i roi i Clinical Solutions Group ac wedi darparu gwybodaeth anghywir am brofiad rhyngwladol Clinical Solutions Group.⁵⁶ Esboniodd Ms Richards fod y papur gwybodaeth i'r Bwrdd wedi cyfeirio at Clinical Solutions Group oherwydd bod CSUK yn gyfreithlon wedi defnyddio'r logo hwnnw trwy gydol y broses dendro. Pwysleisiodd Ms Richards yn y cyfarfod dilynol o'r Bwrdd fod terminoleg CSUK wedi'i ddefnyddio, i fod yn gwbl eglur ac er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.⁵⁷ Tra bod gan CSUK efallai'r hawl i ddefnyddio logo Clinical Solutions Group, a'u bod wedi cynllunio i ddefnyddio ei feddalwedd dan drwydded i ddarparu'r gwasanaeth yng Nghaerdydd, yr ydym yn ystyried mai ychydig o gyfiawnhad sydd i'r ffaith fod y papur gwybodaeth heb yr eglurder o'r fath.
28. Hefyd pwysleisiodd Ms Richards fod y rhan o'r papur gwybodaeth oedd yn manylu ar brofiad rhyngwladol Clinical Solutions Group wedi'i ddarparu yn unig fel cefndir.⁵⁸ Serch hynny, yr oedd y papur gwybodaeth yn gor-ddweud yn arw am brofiad rhyngwladol Clinical Solutions Group, yn dweud ei fod wedi darparu gwasanaethau clinigol mewn nifer o wledydd, pan, yn wir, mae'n darparu meddalwedd clinigol yn y gwledydd hynny ac nid yw'n darparu gwasanaethau clinigol yn unman yn y byd.⁵⁹ Rhoddodd Ms Richards sicrwydd i ni fod y papur gwybodaeth wedi'i roi yn gwbl ddiffuant, nad oedd wedi'i fwriadu i wneud i benderfyniad peryglus ymddangos yn haws ei dderbyn, ac nad oedd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi'u camarwain.⁶⁰ Fodd bynnag, mae'n awgrymu ymhellach fod y BILL ymhell o fod yn eglur am y berthynas rhwng Clinical Solutions Group a CSUK.

⁵⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.27

⁵⁵ C 69

⁵⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.28 i 1.31

⁵⁷ C 50

⁵⁸ C50

⁵⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.29

⁶⁰ C 51 a 53

Nid oedd yr arian ychwanegol, £59,000, a roddwyd i CSUK wedi'i gyfiawnhau

Darparodd y BILL arian ychwanegol oherwydd pryderon am ddiogelwch cleifion a gododd oherwydd cynnydd honedig mewn galw

29. Yr oedd y contract a arwyddwyd gan FILI Caerdydd a CSUK wedi'i seilio ar contract model a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru⁶¹. Yr oedd y contract am wasanaethau clinigol: brysbennu Nyrsys ar y teleffon ac asesiadau clinigol mewn canolfan gofal sylfaenol neu trwy ymweliad cartref, ac yr oedd yn seiliedig ar broffil gweithgaredd blynyddol dangosol o 69,570 achos (sef y proffil gwreiddiol o 62,116 yn y fanyleb wreiddiol a 12 y cant yn ychwanegol yn y llythyr cynnig contract i adlewyrchu'r galw ar fore Sadwrn)⁶². Yr oedd y contract am ffi penodedig o £1.9 miliwn ac yr oedd yn bendant yn gwneud CSUK yn gyfrifol am gyfarfod unrhyw gostau ychwanegol neu annisgwyl. Felly, o dan amodau'r contract, cafodd peryglon a gysylltir gyda galw yn esgyn y tu hwnt i'r lefelau a ragwelwyd eu trosglwyddo i CSUK.⁶³ Oherwydd nad oes gan CSUK unrhyw reolaeth dros y galw am wasanaethau Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw'r contract yn adlewyrchu arfer gorau, sy'n awgrymu y dylai peryglon gael eu dynodi i'r rhai a all eu rheoli orau⁶⁴. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn adolygu ei ddynodiad risg yn ei gontractau model, a thrwy ei Gylchlythyr Iechyd Cymru, mae wedi cynghori'r BI LI i sicrhau fod peryglon yn cael eu trosglwyddo a'u rhannu'n briodol⁶⁵.
30. P'un ai fod y contract wedi dilyn arfer gorau o ran dynodi risg, yr oedd gan CSUK gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth i safonau cytundebol am y ffi a gytunwyd arno. Yr oedd y safonau hynny'n cynnwys yr amser a gymerwyd i gleifion gael eu galw'n ôl i dderbyn cyngor oddi wrth nyrs⁶⁶. Esboniodd Ms Richards, o fewn ychydig wythnosau i gychwyn y gwasanaeth fod amseroedd galw'n ôl am gyngor dros y ffôn ar benwythnosau'n 'annerbyniol', gyda chleifion yn aros ar gyfartaledd am ddwy awr a chwarter, ac am hyd at uchafswm o bum awr.⁶⁷ Credai'r BILL, ac mae wedi ailadrodd hynny mewn gohebiaeth ac mewn papurau briffio, mai achos craidd yr oedi hwn oedd cynnydd digyffelyb yn y galw uwchlaw'r lefelau a ragwelwyd, er mai

⁶¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.1; C4

⁶² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.11

⁶³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.1 hyd 2.5

⁶⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 9

⁶⁵ C11, 59 a 70; Atodiad D

⁶⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.2

⁶⁷ C55

y chydig o dystiolaeth oedd ganddo i gefnogi hyn.⁶⁸ Er mwy delio gyda'r peryglon i ddiogelwch cleifion a allai godi o'r oedi hwn, rhoddodd BILI Caerdydd gyfanswm o £59,000 o arian ychwanegol i CSUK, am gyfnod o chwe wythnos yn y lle cyntaf a chafodd hyn ei ymestyn hyd ddiwedd Mawrth 2005 wedyn, er mwyn cyflogi nyrsys ychwanegol ar benwythnosau.⁶⁹

31. Dywedodd Ms Richards wrth y Pwyllgor fod nyrsys a gyflogwyd gan CSUK, a oedd wedi'u trosglwyddo o sefydliadau oedd yn cyflenwi'r gwasanaeth yn y gorffennol, ddim wedi cael hyfforddiant parhaus yn eu meysydd felly 'roeddent yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i ddarparu gwasanaethau 'brysbennu' i gleifion. Dywedodd Ms Richards fod hyn yn golygu fod CSUK wedi gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i'r staff hynny, a bod hwn yn fater nad oedd gan CSUK unrhyw reolaeth drosto.⁷⁰ Serch hynny, yr oedd cyfrifoldeb am staffio'r gwasanaeth i lefelau priodol a materion effeithiolrwydd staff wedi'u trosglwyddo i CSUK dan delerau'r contract.⁷¹ Ymhellach, yr ydym yn siomedig yn yr ymgais hon i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am fethiant CSUK i gynllunio a chyflwyno gwasanaeth diogel i gleifion yng Nghaerdydd i staff blaen a'r darparwyr blaenorol.
32. Nid ydym yn credu mai rhoi arian ychwanegol mor gynnar yn y contract oedd yr ymateb mwyaf priodol i fethiant CSUK i gyflwyno'r gwasanaeth yr oedd wedi cytuno i'w ddarparu, yn arbennig oherwydd, dan y contract, fod gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yr hawl i wneud gostyngiadau yn y taliad pe byddai CSUK yn peidio cwrdd â'r safonau a gytunwyd.⁷² Dywedodd Ms Richards wrthym nad oedd y BILI hyd yn oed wedi ystyried yr opsiwn i wneud gostyngiad i'r taliadau ar yr amser hwnnw.⁷³ Yn hytrach, fe bwysleisiodd cyfrifoldeb y BILI i reoli peryglon i ddiogelwch cleifion, ac fod hyn yn cymryd y flaenoriaeth dros ystyriaethau am delerau cytunol a gwerth am arian.⁷⁴ Fe wadodd Ms Richards yn bendant fod unrhyw gysylltiad rhwng dilysrwydd ariannol CSUK a'r angen i ddarparu arian ychwanegol mor gynnar ym mywyd y contract.⁷⁵ Er ein bod yn sylweddoli cyfrifoldeb eithaf Ms Richards am ddiogelwch cleifion, nid yw hyn yn golygu y dylai cyflenwyr allu derbyn arian ychwanegol yn awtomatig pryd bynnag maent yn methu cwrdd â safonau'r gwasanaeth, a allai fod yn gymhelliad gwrthnysig i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd gwael.

⁶⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.10 a 2.12

⁶⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.7 a 2.8

⁷⁰ C 57

⁷¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.17

⁷² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.3

⁷³ C 55

⁷⁴ C 57

Ni wnaeth y gweithgaredd Clinigol fynd y tu hwnt i'r lefelau a amlinellwyd ym manyleb y gwasanaeth

33. Yn Rhagfyr 2004, cynhyrchodd CSUK gynllun busnes i gefnogi darparu arian ychwanegol, oedd yn honni fod y galw wedi mynd y tu hwnt i'r proffil gweithgaredd contract o dros 40 y cant. Fodd bynnag, yr oedd camgymeriadau mathemategol yn y cynllun busnes ac yr oedd y ffigurau a ddyfynnwyd yn gysylltiedig â rhagdybiaethau cynllunio CSUK eu hunain yn hytrach na lefelau gweithgarwch a gontractiwyd.⁷⁶ Er bod Ms Richards wedi dweud fod y BILI wedi gwrthod y cynllun busnes,⁷⁷ fe wnaeth BILI Caerdydd yn wir ddarparu arian ychwanegol wedyn i CSUK o fis Rhagfyr 2004 hyd Fawrth 2005 ar y sail fod "cynnydd na welwyd mo'i debyg yn y galw".⁷⁸ Fe ddylai pryderon blaenorol BILI Caerdydd am ragolygon ariannol a pheryglon llif arian, a defnydd CSUK o ffigurau anghywir i hawlio arian ychwanegol fod wedi arwain at graffu mwy trylwyr o weithgarwch CSUK i wirio honiadau'r cwmni ei fod yn gorberfformio yn ôl y contract.
34. Yr oedd BILI Caerdydd yn wir yn defnyddio data amhriodol i wirio a oedd gweithgaredd CSUK wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau a gontractiwyd. Yr oedd y BILI yn defnyddio graddfeydd gweithgarwch 'Cyswllt â Chaerdydd', canolfan alw Cyngor Sir Caerdydd sy'n darparu cyfleusterau delio gyda galwadau i'r gwasanaeth tu allan i oriau arferol, i fonitro perfformiad CSUK yn ôl y contract ac fel tystiolaeth o gynnydd mewn galw o 46 y cant.⁷⁹ Fodd bynnag, yr oedd hyn yn ddull mesur cyfangwbl amhriodol o berfformiad CSUK oherwydd fod cyfran sylweddol o'r galwadau a gafodd eu cymryd gan 'Cyswllt â Chaerdydd' heb fod angen unrhyw ymateb clinigol gan, ac felly ni chawsant eu trosglwyddo i, CSUK.⁸⁰
35. Yn wir, mae data'r Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ar weithgarwch CSUK yn nodi, yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, y cyfnod oedd wedi'i gynnwys yn y taliadau ychwanegol cychwynnol, ni wnaeth y galw fynd y tu hwnt i'r rhagolygon am y misoedd na'r penwythnosau.⁸¹ Ymhellach, dros chwe mis cyntaf y contract, yr oedd y galw yn is na'r proffil gweithgarwch contract.⁸² Felly fe wnaethom ofyn i Ms Richards pam fod y BILI wedi penderfynu parhau i ddarparu arian ychwanegol i CSUK hyd ddiwedd

⁷⁵ C 58

⁷⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.9 a 2.10 a Tabl 2

⁷⁷ C 63 a 64

⁷⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.10

⁷⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.12

⁸⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.12 a 2.13; C68

⁸¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.14 a Tablau 3 a 4

Mawrth i reoli galw cynyddol pan nad oedd y ffigurau a ddarparodd y BILL lei hun yn rhoi unrhyw dystiolaeth o gynnydd o'r fath. Dywedodd Ms Richards wrth y Pwyllgor fod y penderfyniad wedi'i seilio ar fater diogelwch cleifion.⁸³ Fe ddadleuodd hefyd fod data sydd ar gael bellach gan y BILL yn dangos, dros y flwyddyn gyfan, fod galw yn wir wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau cytundebol. Dywedodd Ms Richards wrthym, ym mlwyddyn gyntaf y contract, dim ond 75 y cant o'r galwadau i'r gwasanaeth delio gyda galwadau tu allan i oriau arferol, a weithredwyd gan 'Cyswllt â Chaerdydd', oedd wedi'u cyfeirio at CSUK oherwydd eu bod angen ymateb clinigol. Fe ychwanegodd, os cymerir hyn i ystyriaeth ac fod manyleb wreiddiol y gwasanaeth a nododd 62,116 o alwadau yn cael ei ostwng o 25 y cant, mae'r galw 13 y cant yn uwch na manyleb y gwasanaeth.⁸⁴

36. Credwn fod dadl Ms Richards fod galw wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd yn ei hanfod yn ddiffygiol, oherwydd:

- a) Mae wedi'i briodoli ar fonitro perfformiad CSUK mewn perthynas â graddfeydd gweithgarwch 'Cyswllt â Chaerdydd' dan delerau contract delio gyda galwadau ar wahân; does gan weithgarwch delio gyda galwadau 'Cyswllt â Chaerdydd' ddim perthnasedd i fonitro contract y BILL gyda CSUK ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol;⁸⁵
- b) er bod gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd bryderon am y data hanesyddol a ddefnyddiwyd i ddatblygu manyleb y gwasanaeth,⁸⁶ unwaith bo'r proffil gweithgaredd ym manyleb y gwasanaeth wedi'i wneud yn derfynol a'i ddefnyddio fel sail i dendrau cystadleuol, nid oedd unrhyw reswm i fidwyr na'r BILL i gymryd fod y proffil gweithgaredd yn unrhyw beth ar wahân i'r hyn a amlinellwyd ym manyleb y gwasanaeth;
- c) mae'r gostyngiad honedig o 25 y cant mewn gweithgarwch yn seiliedig ar ffigurau a gafwyd flwyddyn wedi i'r contract gael ei lofnodi ac felly ni allai fod wedi bod yn rhan o ddisgwyliadau'r partïon o'r contract gwreiddiol; ac
- d) goblygiad rhesymegol y gostyngiad ym mhroffil gweithgarwch y contract yw y dylai pris y contract hefyd ostwng i adlewyrchu'r ffaith fod pris y tendr yn

⁸² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.15

⁸³ C 65

⁸⁴ C 62 a 67

⁸⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.13

⁸⁶ C 67

seiliedig ar y lefelau gweithgarwch a amlinellwyd yn y manyleb gwasanaeth gwreiddiol.

37. Mae'r proffil gweithgaredd a addaswyd yn sylweddol is na'r proffil a gytunwyd dan y contract, ac rydym ni'n bryderus fod y ffigwr newydd hwn yn cael ei ddefnyddio gan bwylgor monitro gwasanaeth tu allan i oriau'r BILI i fonitro gweithgarwch CSUK.⁸⁷ Er gwaethaf beirniadaeth yr Archwilydd Cyffredinol am y dull hwn o weithredu⁸⁸ fe ymddengys fod BILI Caerdydd yn parhau i fonitro gweithgarwch CSUK yn amhriodol yn erbyn swm y galwadau gaiff eu trin gan 'Cyswllt â Chaerdydd', a'i fod yn bwriadu defnyddio ei broffil gweithgarwch a addaswyd fel sail ar gyfer asesu perfformiad CSUK yn erbyn y contract.⁸⁹ Yr ydym yn ystyried fod hyn yn gwbl annerbyniol, ac mae'n codi cwestiynau difrifol am gywirdeb ac effeithiolrwydd dull monitro Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd o berfformiad CSUK.
38. Yr ydym yn croesawu'r ffaith fod Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried ar hyn o bryd a ydynt am geisio adfer yr arian ychwanegol a ddarparwyd i CSUK. Fodd bynnag, yr ydym yn bryderus fod y BILI wedi dweud wrthym y bydd yn ystyried a yw'r costau ychwanegol a amsugrwyd gan CSUK dros gyfnod y contract yn cyfateb i'r taliadau ychwanegol,⁹⁰ gan fod y contract yn amlwg iawn yn trosglwyddo'r perygl am unrhyw gostau ychwanegol i CSUK.⁹¹

⁸⁷ C 62

⁸⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.13

⁸⁹ C 66

⁹⁰ C 66

⁹¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.2

Atodiad A

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad A.

Atodiad B

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad B. Ni does fersiwn Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.

Atodiad C

**Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad C. Ni does fersiwn
Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.**

Atodiad D

**Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad D. Ni does fersiwn
Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.**

Atodiad E

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad E. Ni does fersiwn Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.